Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad | Commonwealth Parliamentary Association
Senedd Cymru | Welsh Parliament

**CYFARFOD PWYLLGOR GWAITH Y GANGEN**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 21 Mai 2025

**Amser:** 12:30-13:20

**Lleoliad:** 4B (Tŷ Hywel)

Yn bresennol
David Rees AS (Is-lywydd a Chadeirydd Dros Dro)
Natasha Asghar AS
Rhianon Passmore AS

Ysgrifenyddiaeth
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro'r Gangen
Beatrice Young, Swyddfa Breifat y Llywydd

**AGENDA**

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU**

   Rhun ap Iorwerth AS
   Alun Davies AS
   Sam Rowlands AS

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** - Papur CPA 6S-25-01 (**DOGFEN 1**)

   Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Dim

4. **Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol**

- *73ain Seminar San Steffan*
  *10-14 Mawrth*

  James Evans AS oedd yn cynrychioli'r Senedd yn y Seminar a rhoddodd adborth adeiladol, a chadarnhaol ar y cyfan, am ei brofiad. Byddai adroddiad ffurfiol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y DU yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

- *Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Caeredin, yr Alban*
  *16-19 Mawrth*

  Natasha Asghar AS, Rhianon Passmore AS a Sioned Williams AS oedd yn cynrychioli'r Gangen yng Nghynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad eleni, dan ofal Senedd yr Alban. Roedd adroddiad ffurfiol yn cael ei lunio gan Ysgrifenyddiaeth BIMR. Rhannodd Rhianon Passmore AS adroddiad personol yr oedd wedi'i ddrafftio am ei phrofiad yn y gynhadledd.

  Nododd yr Aelodau a oedd yn bresennol ddiolch y Senedd i Senedd yr Alban am gynnal cynhadledd ardderchog a threfnus iawn.

- *Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol BIMR*
  *Ynysoedd Cayman*
  *26 Ebrill-2 Mai*

  Alun Davies AS oedd yr Aelod cyntaf o'r Senedd ers blynyddoedd lawer i gymryd rhan mewn Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol. Roedd Alun Davies AS wedi rhoi adborth cadarnhaol am y profiad, gan ddweud bod y genhadaeth wedi'i threfnu'n dda iawn.

Roedd datganiad rhagarweiniol BIMR ar etholiad Ynysoedd Cayman wedi'i rannu gyda'r Aelodau.

- *Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad*
  *Nassau, y Bahamas*
  *28 Ebrill - 4 Mai*

  Roedd Sioned Williams AS wedi diolch i'r Gangen am y profiad hwn, a oedd wedi bod o werth mawr iddi. Roedd ei hadroddiad Cangen drafft wedi'i rannu gyda'r Aelodau.

  Sylwer: Mae erthygl gomisiwn Sioned Williams AS yng nghyfnodolyn ***Parliamentarian*** ar gael yma.

- *Ymweliad gan Lefarydd Senedd Queensland*
  *7-8 Mai*

  Roedd y Llywydd yn falch o groesawu Llefarydd Senedd Queensland, Pat Weir, i'r Senedd.

  Roedd rhaglen y Llefarydd Weir yn canolbwyntio ar weithrediadau’r Pwyllgorau a Chraffu Ariannol ac yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r Dirprwy Lywydd a Chadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd, Peredur Owen Griffiths AS.

- *Ymweliad gan Lefarydd Senedd Awstralia*
  *14 Mai*
  Croesawodd y Llywydd Sue Lines, Llefarydd Senedd ffederal Awstralia, i'r Senedd. Roedd rhaglen y Llywydd Lines yn cynnwys cyfarfod â'r Dirprwy Lywydd yn ogystal â Chadeirydd Pwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd, Hannah Blythyn AS.

  Sylwer: Roedd y Llefarydd Weir a'r Llywydd Lines yn y Deyrnas Unedig i gymryd rhan yng Nghyfarfod Pwyllgor Gwaith Rhyngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, a gynhaliwyd yn Llundain ar 13 Mai.

- *Cyfarfod Gweithgor LHDT+ BIMR*
  *19 Mai*

  Roedd y cyfarfod ar-lein hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o sawl

Cangen BIMR. Cynrychiolwyd y Senedd gan Adam Price AS.
Roedd y trafodaethau'n cynnwys sut y gellid bwrw ymlaen â'r Rhwydwaith newydd yn ogystal â'r lansiad swyddogol, a fyddai'n digwydd yn y Senedd fel rhan o'n Cynhadledd BIMR.

5. **BLAENGYNLLUNIO**

**Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig**

**2025**

- *Cynhadledd BIMR*
  *Caerdydd, Cymru*
  *17-19 Mehefin*

  Nododd y Cadeirydd Dros Dro fod y paratoadau ar gyfer cynnal y gynhadledd fawr hon yn mynd rhagddynt yn dda. Roedd rhaglen lefel uchel wedi'i dosbarthu a chafwyd trafodaeth fer am fformat a phrif sesiynau'r Gynhadledd.

- *Ymweliad gan Lywydd Cyngor Deddfwriaethol De Cymru Newydd*
  *2 Gorffennaf*

  Nododd y Cadeirydd Dros Dro y byddai Mr Ben Franklin, Llywydd (Llefarydd) Cyngor Deddfwriaethol De Cymru Newydd (y Senedd) yn ymweld â'r Senedd ar gyfer rhaglen swyddogol, a fyddai'n canolbwyntio ar Ymgysylltu Seneddol.

- *61ain Cynhadledd Ranbarthol Canada*
  *Dinas Québec*
  *20-23 Gorffennaf*

  Roedd y Cadeirydd Dros Dro wedi nodi ei fod wedi mynegi diddordeb mewn cynrychioli'r Senedd fel Arsylwr rhyngwladol yng Nghynhadledd Rhanbarth Canada o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, drwy wahoddiad gan Gynulliad Cenedlaethol Québec. Roedd yn falch o fod wedi cael ei dderbyn fel cynrychiolydd y Senedd ac roedd yn edrych ymlaen at gymryd rhan yn y Gynhadledd.

- *Cenhadaeth Arsylwyr Etholiadol BIMR*
  *Ynysoedd Falkland*
  *Hydref-Tachwedd*

  Alun Davies AS oedd yr unig Aelod i fynegi diddordeb yn y cyfle hwn ac roedd y Gangen wedi cyflwyno ei enwebiad i Ysgrifenyddiaeth BIMR.

  Ôl-nodyn: Wedi hynny, dewiswyd Alun Davies AS i fod yn Bennaeth y Genhadaeth ar gyfer y Genhadaeth Arsylwyr Etholiadol hon.

- *68ain Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad / etholiadau Seneddwragedd y Gymanwlad*
  *Barbados*
  *6-13 Hydref*

  Roedd dyddiadau'r 68ain Cynhadledd yn Barbados bellach wedi'u cadarnhau yng nghyfarfod diweddar y Pwyllgor Gwaith ac roedd disgwyl gwahoddiadau swyddogol yr wythnos ganlynol.

  Am resymau a drafodir o dan Eitem 6 (Unrhyw Fater Arall), cynigiodd y Cadeirydd Dros Dro y byddai'r Gangen yn dewis ein Cynrychiolydd ar gyfer y gynhadledd hon o blith Pwyllgor Gwaith y Gangen ac y byddai’r lle ychwanegol ar gyfer Arsylwr yn cael ei gynnig i'r Gangen ehangach.

***2026***

- *Cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Belfast, Gogledd Iwerddon*
  *Chwefror*

  Nodwyd bod Cangen Gogledd Iwerddon o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad wedi ymrwymo i gynnal Cynhadledd Ranbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad yn 2026. Roedd Cangen Gogledd Iwerddon yn ymwybodol bod Etholiadau Cenedlaethol yn cael eu cynnal mewn sawl senedd yn Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir, gan gynnwys Cymru a'r Alban, ac felly roedd yn cynnal y gynhadledd yn gynt nag arfer, gan obeithio denu cynifer o Aelodau Seneddwragedd y Gymanwlad â phosibl.

6. **EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL**

**- *Cynrychiolydd y Senedd ar Bwyllgor Gwaith Rhyngwladol***

***Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.***

Cadarnhaodd y Cadeirydd Dros Dro y byddai Cangen y Senedd o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cymryd lle Cangen yr Alban ar Bwyllgor Gwaith Rhyngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad eleni.

Felly, byddai angen i'n cynrychiolydd yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad eleni ein cynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith ar ddiwedd y gynhadledd swyddogol.

Byddai Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn cysylltu ag Aelodau Pwyllgor Gwaith y Gangen cyn hir i'w gwahodd i ddatgan diddordeb mewn bod yn gynrychiolydd y Gangen (BIMR) ar y Pwyllgor Gwaith Rhyngwladol. Yna, byddai Deiliaid Swyddi'r Gangen (y Llywydd, y Dirprwy Lywydd a'r Cadeirydd) yn ystyried y datganiadau hynny.

Ôl-nodyn: Eglurwyd wrth yr Aelodau wedi hynny mai cyfle i gynrychioli ein Cangen yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad eleni yn unig fyddai hwn. Byddai penderfyniad ynghylch pwy fyddai ein cynrychiolydd parhaol ar gyfer tymor llawn 2026-28 ar Bwyllgor Gwaith Rhyngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn cael ei wneud ar ôl etholiadau'r Senedd yn 2026.

## 7. DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL:

Roedd slot cyfarfod dros dro wedi'i drefnu ar gyfer 4 Mehefin ond nid oedd ei angen.

**DIWEDD**